# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 19 Mawrth 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 269 (v3)

**Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.**

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I ofyn i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Sioned Williams: Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith ar Gymru yn sgil diwygiadau Llywodraeth y DU i les?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw ddatganiadau 90 eiliad.

## 5 Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NNDM8858** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Atal Rheol Sefydlog 13.6 dros dro i ganiatáu i'r Aelodau gyfrannu ar fwy nag un achlysur yn ystod y Ddadl Agored ar NDM8839 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 19 Mawrth 2025.

## 6 Dadl Agored

(120 munud)

**NDM8839** Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

A all ynni adnewyddadwy yn unig ddiwallu anghenion ynni Cymru?

**Cefnogwyr**

Lee Waters (Llanelli)

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Yswiriant Gwladol y Cyflogwr

(60 munud)

**NDM8857** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnydd Llywodraeth y DU i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, sy'n dod i rym ar gyfer y flwyddyn dreth 2025-26.

2. Yn cydnabod yr effaith niweidiol y bydd y cynnydd i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn ei chael ar elusennau, cwmnïau nid-er-elw a sefydliadau gwirfoddol Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud sylwadau ar frys i Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd elusennau, cwmnïau nid-er-elw a sefydliadau gwirfoddol Cymru sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn niffiniad Llywodraeth y DU o gyflogeion y sector cyhoeddus a ddiffiniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac, o ganlyniad, y byddant yn cael eu had-dalu am y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ol pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod:

a) nad yw yswiriant gwladol wedi'i ddatganoli:

b) bod elusennau, cwmnïau nid-er-elw a sefydliadau gwirfoddol Cymru yn poeni am effaith cynnydd i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr; ac

c) bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau, a bydd yn parhau i wneud sylwadau, i Lywodraeth y DU ar ran gwasanaethau cyhoeddus ac elusennau, cwmnïau nid-er-elw a sefydliadau gwirfoddol Cymru ynghylch cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at:

a) y bwriad i ddyrannu ad-daliadau'r Trysorlys i wasanaethau cyhoeddus craidd ar sail Fformiwla Barnett, a fyddai'n gadael Cymru yn wynebu diffyg o gymharu â Lloegr.

b) y diffyg eglurder ynghylch swm llawn y costau i wasanaethau cyhoeddus craidd yng Nghymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn, lai na mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ac ar ôl i gyllideb Cymru gael ei basio.

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud galwadau brys ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod costau cynnydd yng nghyfraniadau yswyriant gwladol cyflogwyr i wasanaethau cyhoeddus craidd yng Nghymru yn cael eu talu'n llawn gan Drysorlys y DU.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2025